

# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,  
Tredomen Park,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,  
Parc Tredomen,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG



[www.caerphilly.gov.uk](http://www.caerphilly.gov.uk)  
[www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Kim Houghton  
(Rhif Ffôn: 01443 864267 Ebst: [houghtk@caerphilly.gov.uk](mailto:houghtk@caerphilly.gov.uk))

**Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019**

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod **Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes** yn cael ei gynnal yn **Ystafell Sirhywi - Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** ar **Dydd Mawrth, 2ail Ebrill, 2019** am **5.30 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall cynghorwyr a'r cyhoedd sy'n dymuno siarad am unrhyw eitem wneud hynny drwy wneud cais i'r Cadeirydd. Mae croeso i chi hefyd ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae'r ddau gais hyn yn gofyn am gyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith, a bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os gofynnir amdano.

Mae pob cyfarfod Pwyllgor yn agored i'r Wasg a'r Cyhoedd. Gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Sylwer y bydd methu â gwneud hynny yn golygu y gofynnir i chi adael y cyfarfodydd ac efallai y cewch eich hebrwng o'r safle.

Yr eiddoch yn gywir,

**Christina Harrhy**  
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

## AGENDA

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.

A greener place Man gwyrddach

Correspondence may be in any language or format | Gallwch ohebu mewn unrhyw iaith neu fformat



Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

### **I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-**

To approve and sign the following minutes: -

- |   |   |         |
|---|---|---------|
| 3 | Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2019.   | 1 - 6   |
| 4 | Pwyllgor Craffu Addysg Arbennig am Oes a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2019.   | 7 - 12  |
| 5 | Ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor hwn yn unol â'r drefn galw i mewn.                                   |         |
| 6 | I dderbyn adroddiad llafar gan yr Aelod(au) Cabinet.  |         |
| 7 | Rhaglen Waith y Dyfodol Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes.   | 13 - 28 |
| 8 | I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau* Cabinet canlynol:-  |         |
|   | 1. Aseidiadau Safonau Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer wasanaethau Llyfrgell Bwrdeistref Sirol Caerffili 2017-18. |         |
|   | 2. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg - Diweddariad Perfformiad 2018.  |         |
|   | 3. Cyfalaf Addysg 2019/20   |         |

\* Os oes aelod o'r Pwyllgor Craffu yn dymuno i unrhyw un o'r adroddiadau Cabinet uchod i gael eu dwyn ymlaen ar gyfer adolygiad yn y cyfarfod, cysylltwch â Amy Dredge, 01443 863100, erbyn 10.00 a.m. ar **ddydd Llun, 1ain Ebril** 2019.

### **I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau Craffu canlynol:-**

To receive and consider the following Scrutiny reports: -

- |    |   |         |
|----|---|---------|
| 9  | Blaenoriaethau Fforwm Iau a'r Fforwm Ieuenctid. | 29 - 32 |
| 10 | Categori Ysgolion Cenedlaethol 2018-19.         | 33 - 42 |

### **Cylchrediad:**

**Cynghorwyr** C. Andrews (Is Gadeirydd), P.J. Bevan, A. Collis, S. Cook, W. David, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, D. Havard (Cadeirydd), M.P. James, B. Miles, Mrs G.D. Oliver, Mrs T. Parry, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Simmonds a R. Whiting

## **Aelodau Cyfetholedig:**

**Cynrychiolwyr Archesgobaeth ROC Caerdydd dros Addysg** (gyda hawliau pleidleisio ar faterion addysgol)

Mr M. Western

**Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr** (gyda hawliau pleidleisio ar faterion addysgol) Mr M Barry a Mr R Morgan

**Cynrychiolwyr Cyrff Allanol** (heb hawliau pleidleisio)

Mrs J. Havard (NEU) a Mrs P. Ireland (NEU)

**Asiantaeth Llywodraethwyr Caerffili** (heb hawliau pleidleisio)

Mr D Davies

A Swyddogion Priodol

## **SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk). ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan <http://www.caerffili.gov.uk/Pwyllgor/Preifatrwydd> neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio [griffd2@caerffili.gov.uk](mailto:griffd2@caerffili.gov.uk) neu ffoniwch 01443 863028.

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH  
DDYDD MAWRTH, 19 CHWEFROR 2019 AM 5.30PM.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Havard - Cadeirydd  
Y Cynghorydd C. Andrews – Dirprwy Gadeirydd

Cynghorwyr:

P.J. Bevan, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, M.P. James, B. Miles, Mrs T. Parry, J.E. Roberts  
a R. Saralis.

P. Marsden (Aelod y Cabinet dros Addysg a Chyflawniad).

Yn ogystal â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards  
(Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar) C.  
Evans (Swyddog Craffu Dros Dro) a K. Houghton (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

Hefyd yn Bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili) Mr R. Morgan  
(Rhiant Lywodraethwr), Mrs P.J. Ireland a Mr M. Western (Cynrychiolydd Archesgobaeth  
ROC Caerdydd dros Addysg).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Collis, S. Cook, W. David,  
Mrs G.D. Oliver, J. Simmonds a R. Whiting a'r Aelod cyfetholedig Mr M. Barry (Rhiant  
Lywodraethwr).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd A. Farina-Child ddi-ddordeb personol a niweidiol yn Eitem 10 –  
Cyfalaf Addysg 2019/20. Mae'r manylion wedi'u nodi yn yr eitem benodol.

### 3. COFNODION – 17EG RHAGFYR 2019

PENDERFYNWYD y byddai cofnodion cyfarfod Arbennig y Pwyllgor Craffu Addysg am  
oes a gynhaliwyd ddydd Mawrth yr 17eg Rhagfyr 2018 (cofnod rhif 1-4) yn cael eu  
cymeradwyo fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

#### **4. COFNODION – 8FED IONAWR 2019**

PENDERFYNWYD y byddai cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ddydd Mawrth 8fed Ionawr 2019 (cofnod rhif 1-9) yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

#### **5. YSTYRIAETH O UNRHYW FATER SY’N CAEL EU CYFEIRIO AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â’R WEITHDREFN GALW I MEWN**

Ni chafodd unrhyw faterion eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu yn unol â’r weithdrefn galw i mewn.

#### **6. ADRODDIAD AELOD Y CABINET**

Tynnodd y Cadeirydd sylw’r Aelodau at adroddiad a oedd wedi’i ddsbarthu’n flaenorol a nodwyd heb sylw. Gofynnwyd i aelodau ddarparu unrhyw adborth yn uniongyrchol i’r Cynghorydd Marsden a diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet am ei hadroddiad.

#### **7. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES**

Cyflwynodd y Swyddog Craffu Dros Dro yr adroddiad a oedd yn amlinellu Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes o fis Chwefror 2019 i fis Mehefin 2019.

Cynghorwyd yr aelodau, ers i’r adroddiad gael ei gyhoeddi, bu nifer o newidiadau arfaethedig i’r Rhaglen i’w hystyried ganddynt. Mae swyddogion wedi gofyn i Ffedereiddio Ysgolion gael ei ohirio o’r cyfarfod ar 2il Ebrill 2019 i’r cyfarfod ar 21ain Mai 2019 er mwyn i ymgynghoriadau gael eu cwblhau gydag ysgolion. Gofynnwyd hefyd i’r drafodaeth ar Gategoreiddio Ysgolion symud i’r cyfarfod ar 2il Ebrill.

Gofynnwyd i’r aelodau ystyried y Blaenraglen Waith a’r newidiadau arfaethedig a gwneud unrhyw ddiwygiadau neu gynnig unrhyw eitemau ychwanegol i’w cynnwys mewn cyfarfodydd yn y dyfodol and make any amendments or propose any additional items to be included for future meetings.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Swyddog Craffu Dros Dro am gyflwyno’r Blaenraglen Waith a dywedodd y byddai sylwadau’n cael eu croesawu gan yr Aelodau.

Gofynnodd Aelod i adroddiad gael ei gyflwyno a oedd yn nodi’r ddarpariaeth gwasanaeth a fyddai ar gael i gyflawni’r gofyniad Anghenion Dysgu Ychwanegol cynyddol a chanlyniad yr adolygiad ADY. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau bod ymgynghoriad byw yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar y ddeddfwriaeth ADY newydd a bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cyflwyno eu sylwadau. Ar ôl i’r ymgynghoriad hwn ddod i ben, byddai’n bosibl cyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor. Cytunodd yr Aelod i gwrdd â’r Cyfarwyddwr y tu allan i’r cyfarfod er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn cyd-fynd â’r hyn y gofynnwyd amdano.

Yn dilyn ystyriaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo’r argymhelliad yn yr adroddiad a’r newidiadau a gynigiwyd gan y Swyddog. Cytunwyd ar hyn drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn ddarostyngedig i’r newidiadau uchod, i gymeradwyo’r Flaenraglen Waith sydd wedi’i hatodi i’r adroddiad.

## **8. ADRODDIADAU'R CABINET**

Nid oedd unrhyw un o adroddiadau'r Cabinet a oedd wedi'u rhestru ar yr agenda wedi'u galw i mewn i'w trafod yn y cyfarfod.

## **ADRODDIADAU SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

## **9. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG – DIWEDDARIAD PERFFORMIAD 2018**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Blynyddoedd Cynnar, a oedd yn darparu diweddariad blynyddol i'r Aelodau ar y gwaith a gwblhawyd o dan Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) yn 2018.

Cyfeiriodd yr Aelodau at gorff yr adroddiad a oedd yn darparu manylion y gwaith a oedd wedi'i gwblhau hyd yma, ynghyd â gwaith parhaus a gwaith yn y dyfodol. Tynnodd sylw'r Aelodau at yr uchafbwyntiau o WESP o 2018, yn benodol nifer o gynigion llwyddiannus ar gyfer prosiectau cyfalaf, taflen a gynhyrchwyd a oedd yn hyrwyddo dwyieithrwydd, cynnydd yn y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, y Rhwydwaith Rhieni a oedd wedi datblygu llyfrau dwyieithog i blant, mwy o gydweithio rhwng Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a Choleg y Cymoedd i ddarparu cwricwlwm cyfrwng Cymraeg ehangach. Bu Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo er mwyn gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc ag ADY, Menter Iaith yn cyflwyno'r cynllun 'Y Ffordd i Ddwyieithrwydd/Road to Bilingualism' i ysgolion cyfrwng Saesneg a chwblhau'r Arolwg Rhieni.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Blynyddoedd Cynnar am ei hadroddiad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Gofynnodd Aelod faint o waith gwerthuso a oedd wedi'i wneud ar y gwaith a gynhaliwyd. Dywedodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar wrth yr aelodau y byddai proses ymgynghori WESP yn dechrau maes o law, proses a oedd wedi'i hyrwyddo'n rhagweithiol yn y rhanbarth. Bydd hyn yn pennu targedau ar gyfer y dyfodol yng nghyd-destun newid i gynllun 10 mlynedd. Mae'r Fwrdeistref Sirol mewn sefyllfa dda i gyflawni'r targedau hyn oherwydd mae gwaith i'w cyflawni eisoes wedi dechrau.

Nododd yr Aelodau nad oedd yr opsiwn dwyieithog ar gyfer cwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 yn cael ei gynnal oherwydd y niferoedd isel a gofynnwyd sut y gellir annog cyfranogiad mewn cyfleoedd dysgu dwyieithog. Sicrhodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar yr Aelodau bod Coleg y Cymoedd ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn parhau i gydweithio i gynnig cyrsiau mwy galwedigaethol ac maent yn ymgysylltu ag ysgolion cyfagos i ddenu dysgwyr.

Mynegodd Aelod bryderon bod perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi aros yn yr un fan rhwng 2017 a 2018. Dywedodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar wrth yr Aelodau bod y ffocws wedi bod ar y Cyfnod Sylfaen a bod angen ail-gydbwysu'r sefyllfa yn awr drwy ganolbwyntio ar Gyfnod Allweddol 2, ond bod angen nodi bod cynnydd wedi bod mewn perfformiad ar Lefel 5+.

Trafododd yr Aelodau uchelgeisiau o ran dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ardaloedd difreintiedig ac a allai uchelgeisiau'r Fwrdeistref Sirol gyflawni rhai Llywodraeth Cymru. Ymatebodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar drwy ddweud bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r Fwrdeistref Sirol fod mor uchelgeisiol â phosibl, a chanolbwyntio ar lesiant, cefnogi ADY a dewisiadau galwedigaethol. Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn arwain y ffordd ar yr uchelgeisiau hyn felly mae'r Fwrdeistref Sirol mewn sefyllfa dda, fodd bynnag, nid yw'r

her o wireddu'r uchelgeisiau hyn yn cael eu tanamcangyfrif. Yn nhermau lefelau cyfranogi mewn addysg Gymraeg; mae hyn wedi'i ddsbarthu ar draws y Fwrdeistref Sirol, waeth beth yw'r cefndir economaidd a chymdeithasol.

Holodd yr Aelodau am y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn nhermau addysg Gymraeg a faint o gyflogeion yr Awdurdod Lleol oedd yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr Cymraeg. Dywedodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar wrth yr Aelodau bod y Cyngor yn annog dysgwyr Cymraeg ac yn recriwtio siaradwyr Cymraeg. Yn nhermau nifer y cyflogeion sy'n siaradwyr Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, roedd y tîm Cydraddoldeb yn monitro hyn a byddai'n gofyn i e-bost gael ei anfon gyda'r ffigurau hyn at y Pwyllgor.

Cafwyd trafodaeth hir ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol i athrawon cyfrwng Cymraeg a Saesneg wrth ddatblygu sgiliau'r Gymraeg gan gynnwys yr hyfforddiant Cynllun Sabothol a'r cyfyngiadau posibl o ran y gyllideb ac adnoddau ar gyfer hyn. Trafododd yr aelodau hefyd recriwtio athrawon sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac athrawon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dywedodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar wrth yr Aelodau bod llawer wedi newid yn y 5-10 mlynedd ddiwethaf yn y ffordd yr oedd y Gymraeg yn cael ei dysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a'u bod yn edrych yn benodol ar ddatblygu sgiliau Cymraeg athrawon fel ail iaith yn nhermau darparu hyfforddiant er mwyn cael llai o effeithiau ar adnoddau a chynyddu cyfleoedd i'r eithaf, p'un a yw hynny'n golygu datblygu mwy o opsiynau dysgu ar-lein neu ddefnyddio dulliau eraill. O ran yr effaith ariannol o ddarparu'r hyfforddiant hwn, ni allai roi sylwadau oherwydd mai'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg a oedd yn gyfrifol am ddarparu'r math hwn o hyfforddiant, ond byddai'n gofyn i'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg gyflwyno'r manylion hyn i'r Pwyllgor drwy e-bost. Dywedodd wrth yr Aelodau ei bod yn anodd recriwtio athrawon i ysgolion cyfrwng Cymraeg a bod gwaith yn cael ei wneud i gefnogi dysgwyr wrth iddynt symud rhwng pob cam o addysg cyfrwng Cymraeg, yn arbennig i addysg ôl-16, lle gellir recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg o bosibl.

Mynegodd un Aelod bryderon y byddai canolbwyntio ar gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg yn niweidiol i lefelau cyrhaeddiad addysg cyffredinol. Sicrhaodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar, er bod darparu darpariaeth Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ffocws, nid oedd yn disodli ymrwymiad yr Awdurdod i gyflawni safonau cyrhaeddiad addysgol yn gyffredinol. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cefnogi arbenigwyr y Gymraeg ym mhob ysgol ac mae hyn yn gam cynnar tuag at ysgolion dwyieithog yn y dyfodol.

Dywedodd Aelod y dylai'r defnydd o ganolfannau gweithgarwch cyfrwng Cymraeg gael ei annog gan ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i'r adroddiad gael ei nodi. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD y byddai cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

## **10. CYFALAF ADDYSG 2019/20**

Datganodd y Cynghorydd A. Farina-Childs ddiddordeb personol a niweidiol fel Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun y Coed Duon a bod aelod o'i deulu yn gweithio hefyd yn yr ysgol. Gadawodd yr ystafell pan gyflwynwyd yr adroddiad ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg, a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â Rhaglen Cyfalaf Addysg 2019/20, cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet.

Holodd Aelod am y broses dendro i gontractwyr ar waith o dan £10,000 ac a oedd y broses yn un gystadleuol a oedd yn darparu gwerth am arian. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg bod tendrau yn cael eu cyflwyno drwy'r tîm Cyfleusterau Ysgolion ac y byddai'n gofyn iddynt anfon e-bost at yr Aelod a darparu gwybodaeth am y broses dendro.

Cynigiwyd ac eiliwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi. Cymeradwywyd hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD y byddai cynnwys yr adroddiad yn cael i nodi.

**11. ASESIAU SAFONAU BLYNYDDOL LLYWODRAETH CYMRU GWASANAETHAU LLYFRGELLOEDD BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI 2017-18**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg a oedd yn disgrifio i'r Aelodau y cynnydd a wnaed gan Wasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol i gyflawni 6ed Fframwaith Safonau, Hawliadau Craidd a Dangosyddion Ansoddol Llyfrgelloedd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ystod 2017-18.

Dyweddodd wrth yr Aelodau, o'r 12 Hawliad Craidd, roedd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cyflawni 10 ohonynt yn llawn a 2 yn rhannol. Roedd y ddau Hawliad nad oeddent wedi'u cyflawni'n llwyr yn ymwneud â chwmpas Wi-Fi mewn Llyfrgelloedd, mater a oedd eisoes yn destun sylw a'r lefel o staff cymwys mewn Llyfrgelloedd, fodd bynnag dylid nodi mai dim ond dau o'r 22 awdurdod lleol a oedd wedi cyflawni'r dangosydd hwn.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Adran 4.5.1 yr adroddiad a oedd yn nodi llwyddiannau'r Gwasanaeth ac Adran 4.5.2 a oedd yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg wrth yr Aelodau bod canlyniad yr asesiadau yn cael eu hystyried fel rhai llwyddiannus iawn, gyda safonau'r Llyfrgell yn cael eu cynnal i safon uchel er gwaethaf y cyfyngiadau cyllidebol parhaus.

Gofynnodd Aelod sut y gellir cyflawni'r ddau Hawliad Craidd nad oedd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi'u cyflawni'n llwyr. Ymatebodd y Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg drwy ddweud eu bod wedi mynd i'r afael â'r hawliad Wi-Fi a disgwylir iddo gael ei gyflawni'n llawn yn yr asesiadau nesaf. Mae'r ail Hawliad sy'n gysylltiedig â staff cymwys mewn llyfrgelloedd yn anoddach ei gyflawni a phwysleisiodd eto mai dim ond dau awdurdod o'r 22 a oedd wedi cyflawni hyn yn llawn. Pwysleisiodd i'r aelodau, er mai dim ond yn rhannol y cyflawnwyd y mesur hwn, mae staff llyfrgelloedd wedi'u hyfforddi'n dda ac mae ganddynt lawer i'w gynnig i'r Gwasanaeth.

Trafododd yr Aelodau'n helaeth rôl Llyfrgelloedd yn ymgysylltu ag ysgolion lleol a'u cymunedau lleol. Holwyd pa ddarpariaeth sydd ar gael i ysgolion nad oedd ganddynt fynediad hawdd i lyfrgell a pha ddulliau eraill y gellir eu defnyddio i sicrhau bod gwasanaethau llyfrgelloedd yn hygyrch i bob cymuned. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg wrth yr Aelodau bod Llyfrgelloedd Cymunedol yn ymgysylltu ag ysgolion a bod Strategaeth Ymgysylltu ag Ysgolion ar waith i frwdfrydu darllenwyr mewn ysgolion. Mae cynllun peilot darllenwyr yn cael ei gynnal yn Ysgol Idris Davies, gyda chysylltiadau i lyfrgelloedd lleol. Mae Llyfrgelloedd hefyd yn elfen hollbwysig yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth a fydd yn gobeithio datblygu cysylltiadau cryfach rhwng y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac ysgolion. Yn ogystal, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad bwysigrwydd brwdfrydu darllenwyr ac ymgysylltu ag anghenion ysgolion a'r cymunedau ac i ystyried dulliau megis cyd-leoli gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau llyfrgelloedd a chreu hybiau cymunedol mewn llyfrgelloedd presennol neu mewn canolfannau cymunedol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg am ei hadroddiad ac i'r Aelodau am eu sylwadau. Nodwyd bod y Cadeirydd a'r Pwyllgor yn canmol gwaith gwych Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodwyd, penderfynwyd ac eiliwyd bod adroddiad y Swyddog ac Atodiad 2 yn cael eu nodi. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD:-

- (i) bod cynnwys adroddiad y Swyddog yn cael ei nodi.
- (ii) Bod Adroddiad perfformiad (Atodiad 2) Grŵp Cyfeirnod Safonol Llyfrgelloedd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a chyflawniad yr Awdurdod o'r 10 Hawliad Craidd yn llawn a 2 yn rhannol, ac 8 Dangosydd Ansawdd yn llawn, 2 yn rhannol sydd â thargedau wedi'u haseinio, yn cael eu nodi.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:50pm

Cymeradwywyd fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddigwyddiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il Ebrill 2019 cawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

---

CADEIRYDD



## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG ARBENNIG AM OES

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH  
DDYDD IAU 7FED MAWRTH 2019 AT 5.30PM.

---

YN BRESENNOL:

Cynghorydd D. Havard - Cadeirydd

Cynghorwyr:

P.J. Bevan, A. Collis, S. Cook, W. David, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, M.P. James, B. Miles, Mrs T. Parry, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Simmonds a R. Whiting.

P. Marsden (Aelod y Cabinet dros Addysg a Chyflawniad).

Yn ogystal â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau).

Hefyd yn Bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili), Mr M. Barry and Mr R. Morgan (Rhiant Lywodraethwyr), Mrs J. Havard (NUT) a Mr M. Western (Cynrychiolydd Archesgobaeth Eglwys Unionged Rwseg Caerdydd dros Addysg).

J. Fabes (Arweinydd Adolygiad – ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth, addysg rhyw sengl a lleoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd).

E. Pryce a J. Wood (Gwasanaeth Cyflawni Addysg – GCA).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Andrews (Dirprwy Gadeirydd) a Mrs G.D. Oliver.

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

## **ADRODDIADAU SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

### **3. CYLCH GORCHWYL AR GYFER ADOLYGU ADDYSG ÔL 16 / RHYW SENGL A LLEOEDD DROS BEN**

Rhoddodd y Cadeirydd ganiatâd i'r eitem hon gael ei chyflwyno i'r agenda.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a chroesawodd Mr J. Fabes, Arweinydd Adolygu ar gyfer yr adolygiad o leoedd ôl 16/rhyw sengl a lleoedd dros ben. Rhoddodd Mr Fabes grynodedb o'i yrfa a'i brofiad hyd yma a chadarnhaodd ei fod wedi'i gyflogi gan Gyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi defnyddio gwasanaeth arbenigol Mr Fabes i ddarparu'r adolygiad ar gyfer Caerffili ac maent yn dymuno sefydlu Bwrdd Adolygu er mwyn goruchwyllo datblygiadau.

Ceisiodd yr adroddiad safbwyntiau'r Pwyllgor Craffu ar y cylch gorchwyl ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth ôl 16, addysg rhyw sengl a lleoedd dros ben ar draws Caerffili cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ar 13eg Mawrth 2019.

Cynghorwyd yr aelodau bod y Cyngor yn bwriadu darparu strategaeth gynaliadwy ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghaerffili, sydd wedi'i hategu gan fodolau cadarn ac sy'n darparu'r addysg gywir yn y lle cywir gyda'r canlyniadau gorau i ddysgwyr. Mae parhad addysg rhyw sengl yn Ysgol Merched Lewis ac Ysgol Lewis Pengam, yn ogystal â'r her o leihau lleoedd dros ben ar draws ystâd ysgolion uwchradd Caerffili yn faterion ar wahân, ond cysylltiedig, y mae angen mynd i'r angen â hwy hefyd gan yr adolygiad hwn.

Cyfeiriwyd y Pwyllgor Craffu at atodiad 1 sy'n nodi'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer y Bwrdd a'r Adolygiad. Mae'r Aelodaeth yn grŵp mawr ac amrywiol a fydd yn ystyried y trefniadau adrodd a nodwyd nad ydynt yn gorff gwneud penderfyniadau. Y Cabinet neu'r Cyngor Llawn fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y swyddogaeth o wneud penderfyniadau.

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad a'r cylch gorchwyl. Gofynnwyd am esboniad o'r rhesymeg o gael cymaint o feysydd ar aelodaeth y bwrdd adolygu a pham ei fod hefyd yn cynnig cyfyngu ar gyfranogiad Aelodaeth etholedig. Cyfeiriodd swyddogion at brofiadau blaenorol mewn awdurdodau lleol eraill a chynghorodd bod y rhain yn adolygiadau swmpus yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'r Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod pawb â budd yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses. Cynghorwyd yr aelodau y gallant ddiwygio neu wneud argymhellion pellach i'r Cabinet.

Gofynnodd Aelod am eglurhad o lefel yr ymrwymiad sy'n ofynnol gan Aelodau'r bwrdd yn nhermau cyfarfodydd ac yn y blaen. Cyfeiriodd Mr Fabes at ei brofiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr a chadarnhaodd bod y bwrdd yn cwrdd bob 4-6 wythnos yn ystod y camau cychwynnol. Bydd amlder y cyfarfodydd yn dibynnu ar y gwaith paratoi fydd ei angen rhwng cyfarfodydd a bydd amserlen strwythuredig yn cael ei llunio. Ychwanegodd mai proses dechrau dwys yw hon ac ar ôl trafod y manylion mae'n debygol y bydd nifer y cyfarfodydd yn lleihau i un y tymor. Yn nhermau cwmpas yr adolygiad, ar ôl sefydlu hyn bydd y bwrdd yn pennu'r amserlenni. Bydd y bwrdd yn cael ei lywodraeth gan ddeddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Nododd yr aelodau, pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion, y byddai'r bwrdd yn sicrhau bod yr adroddiad cychwynnol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet mewn dull effeithiol ac amserol.

Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd cyflymder yr adolygiad sy'n cael ei gynnal ac na ddylid oedi o gwbl drwy'r broses gyfan. Cynigiodd aelod y dylid cynyddu'r aelodaeth o ddau i bedwar aelod etholedig i eistedd ar y bwrdd gyda dau o'r grŵp mwyafrifol a dau o grŵp y

gwrthbleidiau. Enwebodd yr Aelodau y Cynghorwyr W. David a R. Saralis ar gyfer y Grŵp Llafur a M. James a T. Parry ar gyfer Plaid Cymru.

Yn nhermau'r adran allbynnau yn y cylch gorchwyl, roedd y Pwyllgor Craffu o'r farn y dylid dileu'r pwnt bwled olaf '*Gwerthuso effaith cynlluniau ôl-16 ar gyfer addysg*'.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Fabes am gyflwyno'r adroddiad ac am ymateb i gwestiynau a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd, yn ddarostyngedig i ddiwygiad i baragraff 3.2, a dileu'r pwynt bwled olaf yn adran allbynnau'r cylch gorchwyl, i gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hynny'n unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn ddarostyngedig i'r uchod:

- (i) i gyflwyno'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygu'r ddarpariaeth ôl-16, addysg rhyw sengl a'r lleoedd dros ben ar draws Caerffili i'r Cabinet;
- (ii) i'r Pwyllgor Craffu Addysg am Oes enwebu pedwar o'i aelodau i eistedd ar y Bwrdd Adolygu, dau o'r grŵp mwyafrifol a dau o'r grŵp gwrthbleidiol.

#### **4. CYNLLUN BUSNES Y GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG (2019-2021) AC ATODIAD YR AWDURDOD LLEOL 2019-2020**

Cyflwynodd Mr E. Pryce A Ms J. Wood o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yr adroddiad a oedd yn gofyn am safbwyntiau'r Aelodau ar Gynllun Busnes GCA 2019-2020 ac Atodiad yr Awdurdod Lleol 2019-2020 cyn eu cyflwyno i'r Cabinet ar 13eg Mawrth 2019.

Mae'n ofynnol i'r GCA gyflwyno Cynllun Busnes rhanbarthol trosfwaol gydag atodiadau atodol ar gyfer pob un o'r pum Awdurdod Lleol (ALI). Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu'r rhaglen waith sydd ei hangen i barhau i gyflymu'r canlyniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn lleoliadau ac ysgolion yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar yr angen i gynyddu uchelgais a chyflymu gwelliannau i ganlyniadau disgyblion, gwella ansawdd yr addysgu ac arweinyddiaeth. Mae'n cynnig cymorth i ysgolion wireddu'r agenda diwygiadau cenedlaethol a pharhau i adeiladu ar y system hunan-wella o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau.

Cynghorwyd y Pwyllgor Craffu mai cynllun un flwyddyn yw hwn sy'n cyflawni gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Busnes yn deillio o Gynlluniau Strategol Awdurdodau Lleol. Mae'r cynnydd a wnaed tuag at feysydd y Cynllun Busnes blaenorol y nodwyd bod angen eu gwella drwy brosesau hunanwerthuso mewnol, ymchwil allanol ac adborth gan Estyn. Mae'r model cyflawni ar gyfer y Cynllun Busnes yn fodel ar sail ranbarthol, mae anghenion pob ysgol a thueddiadau yng Nghaerffili yn cael eu cyflawni drwy waith wedi'i deilwra ar gyfer anghenion ysgolion unigol. Mae hefyd yn ystyried yr hyn mae partneriaid yn ei ddweud. Mae'r Cynllun Busnes wedi bod yn destun proses ymgynghori drylwyr (o Ionawr 18fed 2019 hyd at Chwefror 8fed 2019). Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 5.6 yn yr adroddiad a oedd yn rhestru'r ymgynghoreion ac esboniwyd bod ymatebion yr ymgynghoriad wedi'u hadlewyrchu yn y cynllun.

Cyfeiriodd y Swyddog at baragraff 5.13 yn yr adroddiad sy'n cyflwyno blaenoriaethau Strategol Caerffili ar gyfer 2019/20. Mae gan bob maes gwella yn y cynllun bwyslais penodol yn awr ar waith yr GCA yn hyrwyddo canlyniadau gwell i ddysgwyr agored i niwed, yn benodol y rhai sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim. Nododd yr Aelodau bod y gwelliannau sy'n ofynnol ar lefel rhanbarthol ac awdurdod lleol yn galw am ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth er mwyn llwyddo.

Nododd yr Aelodau bod pob Atodiad ALI yn cynnwys trosolwg o'r perfformiad a'r prif feysydd i'w datblygu ar lefel Awdurdod Lleol. Mae'n cynnwys crynodeb o'r ysgolion sydd angen y lefelau uchel o gymorth, canlyniadau arolygiadau a throsolwg o gategoreiddio'r ALI. Mae gwybodaeth am gynnydd disgyblion wedi'i chynnwys am y tro cyntaf. Sicrhawyd yr Aelodau y bydd yr GCA yn gweithio'n agos gyda phob un o'r partneriaid allweddol er mwyn sicrhau bod y Cynllun Busnes hwn yn cael ei wireddu. Cyfeiriodd y Swyddog at baragraff 5.15 sy'n disgrifio sut mae'r GCA yn cynorthwyo ysgolion i nodi a mynd i'r afael â'u blaenoriaethau gwella ysgol.

Trafododd yr Aelodau'r Cynllun Busnes a'r Atodiad ALI a oedd wedi'i atodi i'r adroddiad. Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â chynghorwyr her GCA ac yn benodol y nifer â phrofiad o ysgolion cynradd ac uwchradd. Byddai manylion penodol yn cael eu dosbarthu i Aelodau ar ôl y cyfarfod, fodd bynnag, mae'r GCA o'r farn eu bod yn cyflogi'r cydbwysedd priodol o gynghorwyr. Holodd un Aelod a ellir disgwyl yr un lefel o wasanaeth gan yr GCA o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y staff ers 2012. Esboniodd y Swyddog bod yr GCA yn parhau i gael ei lesteirio gan ddyfarniadau grant tymor byr gan Lywodraeth Cymru ond bydd gweithio gyda Chynghorau yn parhau i wneud y defnydd gorau o gyllid. Bu gostyngiad o 10% mewn cyllid a 44% mewn staff ac maent yn credu bod gan eu tîm craidd bychan, sy'n gweithio mewn partneriaeth ac ar sail gydweithredol y capasiti i ddarparu'r lefel gwasanaeth ofynnol.

Cafwyd trafodaethau am wella perfformiad Cyfnod Allweddol 4, lleihau'r nifer o ddyddiau a gollir oherwydd gwaharddiadau a gwella lefelau presenoldeb. Dywedodd y Swyddogion y bydd adroddiad sy'n trafod lefelau presenoldeb a gwaharddiadau yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol. Gofynnodd Aelodau a yw'r GCA yn darparu Gwerth am Arian ac esboniodd y Swyddogion bod adroddiad a ddarparwyd yn flaenorol yn dangos cyd-destun rhanbarthol, a bod cais wedi'i wneud wedi hynny am adroddiad lleol a bwriedir ei gyflwyno ar y Flaenraglen Waith mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hynny'n unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD y byddai'r Atodiad Awdurdodau Lleol 2019-20 a Chynllun Busnes GCA 2019-20 yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet, i'w cymeradwyo.

## **5. STRATEGAETH CYRHAEDDIAD A CHYNLLUN GWEITHREDU ADDYSG**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a oedd yn gofyn am farn yr Aelodau ar y strategaeth gyrhaeddiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig cyn ei gyflwyno i'r Cabinet r 13eg Mawrth 2019.

Atodwyd strategaeth gyrhaeddiad y Cyngor, 'Uchelgeisiau a Rennir' a'r cynllun gweithredu strategol cysylltiedig i'r adroddiad. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyfraniad gwerthfawr ac am y gwaith a wnaed gyda phenaethiaid i gynhyrchu'r dogfennau. Cynghorwyd y Pwyllgor Craffu bod y strategaeth yn nodi gweledigaeth arfaethedig ar gyfer gwella cyrhaeddiad a chyflawniad ar draws ysgolion Caerffili sydd wedi'u cysylltu'n benodol i'r blaenoriaethau a nodwyd yn nogfen hunanwerthuso'r Cyngor a'r materion systemig a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses uwch-gyfarfodydd yn yr hydref. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys nifer o egwyddorion arweiniol a naratif ar gyfer #tîmcaerffili sy'n ymgorffori'r ymagweddau a'r ymddygiad a fydd yn sail i'r broses o gyflawni'r strategaeth. Mae'r cynllun gweithredu strategol sydd wedi'i atodi i'r strategaeth yn nodi'r hyn y bydd yr Awdurdod Addysg Lleol, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r Ysgolion ei hunain yn ei wneud i ysgogi gwelliannau ar draws y system ysgolion yng Nghaerffili.

Mae'r Cyfarwyddwr wedi mynychu cyfarfod gyda'r Bwrdd Cynghori Addysg ers cyhoeddi'r pecyn agenda a chafodd dalen ychwanegol sy'n darparu manylion pellach am y camau gweithredu allweddol o'r cynllun strategol ei dosbarthu i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod.

Trafododd yr aelodau'r ddwy ddogfen gysylltiedig a gofynnwyd am eglurhad o hyd y strategaeth. Dywedodd Swyddogion y byddai'r strategol yn debygol o fod ar waith am gyfnod o 3 blynedd a byddai'n cael ei hasesu'n flynyddol. Yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau, bydd y strategaeth yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg. Nodwyd nad oedd paragraff 6 (Rhagdybiaethau) adroddiad y Swyddogion wedi'i gwblhau oherwydd camgymeriad gweinyddol ac roedd camgymeriadau teipograffyddol ar dudalen 10 ac 11 y strategaeth. Hysbyswyd yr aelodau y gellir cyflwyno'r adroddiad a'r dogfennau ategol i'r Cabinet, i'w cymeradwyo, yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a drafodwyd. Cyfeiriodd yr Aelodau at ddalen ddata cyrhaeddiad Caerffili 2018 ar dudalen 11 y strategaeth. Mae hyn yn nodi perfformiad y Cyngor a chyfartaledd Cymru ar draws pob un o'r cyfnodau allweddol yn y pedair blynedd diwethaf a gofynnodd yr Aelodau pam nad oedd tablau wedi'u cynnwys ar gyfer yr adrannau eraill yn y strategaeth. Cadarnhaodd y swyddogion bod y wybodaeth hon ar gael ac y gellir ei darparu i'r Aelodau ond oherwydd swm y wybodaeth, nid oedd wedi'i chynnwys yn y strategaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth ac yn ddarostyngedig i'r uchod, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD y byddai'r Strategaeth Cyflawni Addysg a'r Cynllun Gweithredu Strategol cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w cymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm.

Cymeradwywyd fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddigwyddiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il Ebrill 2019 cawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

---

CADEIRYDD

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



## **EDUCATION FOR LIFE SCRUTINY COMMITTEE - 2ND APRIL 2019**

**SUBJECT: EDUCATION FOR LIFE SCRUTINY COMMITTEE FORWARD WORK PROGRAMME**

**REPORT BY: CORPORATE DIRECTOR FOR EDUCATION AND CORPORATE SERVICES**

---

### **1. PURPOSE OF REPORT**

1.1 To report the Education for Life Scrutiny Committee Forward Work Programme.

### **2. SUMMARY**

2.1 Forward Work Programmes are essential to ensure that Scrutiny Committee agendas reflect the strategic issues facing the Council and other priorities raised by Members, the public or stakeholders.

### **3. LINKS TO STRATEGY**

3.1 The operation of scrutiny is required by the Local Government Act 2000 and subsequent Assembly legislation. The Forward Work Programmes contribute to the following Well-being Goals within the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2016 by ensuring there is an effective scrutiny function and that council policies are scrutinised against the following goals:

- A prosperous Wales
- A resilient Wales
- A healthier Wales
- A more equal Wales
- A Wales of cohesive communities
- A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language
- A globally responsible Wales

### **4. THE REPORT**

4.1 The Education for Life Scrutiny Committee forward work programme includes all reports that were identified at the scrutiny committee meeting on 19th February 2019. The work programme outlines the reports planned for the period February 2019 to June 2019.

4.2 The forward work programme is made up of reports identified by officers and members and has been prioritised into three priority areas, priority 1, 2 or 3. Members are asked to consider the work programme alongside the cabinet work programme and suggest any changes before it is published on the council website. Scrutiny committee will review this work programme at every meeting going forward alongside any changes to the cabinet work programme or report requests.

4.3 The Education for Life Scrutiny Committee Forward Work Programme is attached at Appendix 1. The Cabinet Forward Work Programme is attached at Appendix 2.

## **5. WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS**

5.1 This report contributes to the well-being goals as set out in links to strategy above. It is consistent with the five ways of working as defined within the sustainable development principle in that by ensuring the scrutiny function is effective when reviewing services and policies and ensure it considers the wellbeing goals.

## **6. EQUALITIES IMPLICATIONS**

6.1 There are no specific equalities implications arising as a result of this report.

## **7. FINANCIAL IMPLICATIONS**

7.1 There are no specific financial implications arising as a result of this report.

## **8. PERSONNEL IMPLICATIONS**

8.1 There are no specific personnel implications arising as a result of this report.

## **9. CONSULTATIONS**

9.1 There are no consultation responses that have not been included in this report.

## **10. RECOMMENDATIONS**

10.1 That Members consider any changes and agree the final forward work programme prior to publication.

## **11. REASONS FOR THE RECOMMENDATIONS**

11.1 To improve the operation of scrutiny.

## **12. STATUTORY POWER**

12.1 The Local Government Act 2000.

Author: Catherine Forbes-Thompson Interim Head of Democratic Services

Consultees: Richard Edmunds, Corporate Director for Education and Corporate Services  
Keri Cole, Chief Education Officer  
Rob Tranter, Head of Legal Services and Monitoring Officer

Appendices:

Appendix 1 Education for Life Scrutiny Committee Forward Work Programme.

Appendix 2 Cabinet Work Programme.

Education for Life Scrutiny Committee Forward Work Programme  
Appendix 1a

<b>Education for Life Scrutiny Committee Forward Work Programme – May 2018 – April 2019</b>			
<b>Meeting Date: 2nd April 2019</b>			
<b>Subject</b>	<b>Purpose</b>	<b>Key Issues</b>	<b>Witnesses</b>
Youth Forum Priorities			P. O'Neil Youth Forum Representatives
Categorisation of Schools			S. Richards

<b>Education for Life Scrutiny Committee Forward Work Programme – May 2018 – April 2019</b>			
<b>Meeting Date: 21st May 2019</b>			
<b>Subject</b>	<b>Purpose</b>	<b>Key Issues</b>	<b>Witnesses</b>
Consultation response report – Federation of Schools (to be requested at Committee)	To provide members with details of the responses to the formal consultation process	Scrutiny members to consider the responses received as part of the formal consultation process prior to determination by Cabinet	S. Richards

<b>Education for Life Scrutiny Committee Forward Work Programme – May 2018 – April 2019</b>			
<b>Meeting Date: June 2019 – Performance Management</b>			
<b>Subject</b>	<b>Purpose</b>	<b>Key Issues</b>	<b>Witnesses</b>
